



# Adnoddau ar gyfer Ceisiadau Arbenigedd

Addysg Iechyd Lloegr (Health Education England) sy'n cynnal y **wefan Hyfforddiant Arbenigol**, a hynny ar gyfer y pedair gwlad: <http://specialtytraining.hee.nhs.uk/> Ewch yma i gael canllawiau i ymgeiswyr, data cystadleuaeth a Manylebau Person

Pan fyddwch chi'n barod i wneud cais, cofrestrwch ar **borth recriwtio Oriel** <https://www.oriel.nhs.uk/Web/> lle byddwch yn cwblhau ac yn cyflwyno ceisiadau, yn olrhain cynnydd, yn rheoli cyfweiliadau ac yn cael cynigion. Bydd pob swydd yn cael ei phostio yma.

I archwilio arbenigeddau, ewch i **wefan Gyrfaoedd Iechyd y Deyrnas Unedig** sy'n cynnwys gwybodaeth am yr ystod lawn o arbenigeddau meddygol a sut mae eu rhaglenni'n gweithio. Ewch i <http://www.healthcareers.nhs.uk/> a chwilio o dan 'Hyfforddiant Arbenigol'. Mae'r safle yma'n cynnwys adnoddau i helpu gyda **cheisiadau a chyfweiliadau**.

Gellir dod o hyd i wybodaeth benodol a fideos byr ar **Hyfforddiant Arbenigol yng Nghymru** ar wefan Deoniaeth Cymru, sef <http://www.walesdeanery.org/>.

Os ydych chi'n aelod o Gymdeithas Feddygol Prydain (**BMA**), gallwch gyrchu modiwl e-ddysgu "Career Essentials - How to be successful with your application to Specialty Training (ST1)" <http://learning.bmj.com/learning/home.html>.

Mae'r Ddeoniaeth yn cadw **fideos ffug gyfweiliadau** ar gyfer Arbenigeddau a Meddygon Teulu yn: <https://learning.wales.nhs.uk/>. Maent ar gael i'r holl hyfforddeion yng Nghymru. Rhaid i chi gofrestru yn gyntaf ar y llwyfan [Learning@NHSWales](mailto:Learning@NHSWales), gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost dilys ym Mhrifysgol Caerdydd neu Brifysgol Abertawe neu GIG Cymru. Cliciwch ar y tab "Cyrsiâu"/"Courses" ar y bar offer, yna edrychwch yn yr adran Gwybodaeth a Sgiliau Galwedigaethol am **Canolfannau Dethol ar gyfer Hyfforddiant Arbenigol (Selection Centres for Specialty Training)**.

Mae gan y **GMC** gyfres o astudiaethau achos ar fideo i'ch helpu i adnewyddu a hunan-asesu eich gwybodaeth am Arfer Meddygol Da: <http://www.gmc-uk.org/gmpinaction/>

Mae erthyglau **Gyrfaoedd BMJ** i gyd yn berthnasol i Recriwtio ar gyfer Arbenigeddau ac maent ar gael ar-lein yn <http://careers.bmj.com/>. Cyhoeddir erthyglau newydd drwy'r amser yn yr adran Sgiliau nad ydynt yn Glinigol (Non-Clinical Skills).